Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMCHWIL

Arolygon deiliadaeth llety twristiaeth Cymru: Ebrill i Fehefin 2021

Mae'r arolygon deiliadaeth yn darparu gwybodaeth am dueddiadau yn y galw am lety twristiaeth yng Nghymru ar gyfer Ebrill i Fehefin 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 30 Medi 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 30 Medi 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Newid mewn pwysoli

Gwestai

Tai llety a gwely a brecwast

Hunanarlwyo

Cartrefi gwyliau carafanau statig

Parciau gwersylla a charafán deithiol

Hosteli

Cyd-destun

Manylion cyswllt

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod pan roedd Lefel Rhybudd 4 mewn grym. O 27 Mawrth, daeth Cymru y wlad gyntaf yn y DU i godi cyfyngiadau teithio o fewn ei ffiniau wrth i'r cyfyngiadau aros yn lleol ddod i ben. Caniatawyd i lety twristiaid hunangynhwysol, megis sefydliadau hunanarlwyo a rhai gwestai,

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ailagor. Roedd codi'r cyfyngiadau teithio ar 12 Ebrill yn golygu yr oedd hawl gan ymwelwyr o wledydd eraill y DU i deithio i Gymru ac aros dros nos, ond mewn llety hunangynhwysol yn unig heb gyfleusterau a rennir. Llaciwyd y cyfyngiadau ymhellach o 17 Mai, oedd yn golygu yr oedd hawl gan bob busnes llety i ailagor.

Prif bwyntiau

- Gyda'r cyfyngiadau yn y sector llety â gwasanaeth yn parhau mewn grym ledled y DU, gellir priodoli deiliadaeth ystafelloedd â gwasanaeth yn ystod mis Ebrill i ymwelwyr o fewn Cymru yn bennaf, gyda chyfradd deiliadaeth ystafelloedd o 35%. Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio ymhellach ar draws y sector ar 17 Mai, cynyddodd lefelau deiliadaeth ystafelloedd ym mis Mai a Mehefin i 56% a 74% yn y drefn honno yn y gwestai a ymatebodd.
- Yn y sector hunanarlwyo, dychwelodd lefelau deiliadaeth unedau ym mis Ebrill (54%) yn ogystal ag ym mis Mai (66%) i lefelau tebyg i'r rhai a welwyd yn 2019 (58% a 65% yn y drefn honno). Perfformiodd mis Mehefin dipyn yn well wrth i'r lefelau deiliadaeth unedau gyrraedd eu cyfradd uchaf o 85% - 21 pwynt canran yn uwch nag yn yr un mis yn 2019.
- Roedd deiliadaeth yn y sector carafanau statig a chartrefi gwyliau rhywfaint yn uwch ym mis Mai a Mehefin o'u cymharu â'r un misoedd yn 2019. Cyrhaeddodd deiliadaeth lleiniau ei chyfradd uchaf ym mis Mehefin o 96% ac yr oedd cystal â'r lefelau deiliadaeth lleiniau sydd i'w gweld fel arfer yn ystod misoedd brig yr haf ym mis Gorffennaf ac Awst.
- Roedd deiliadaeth lleiniau ar draws y sector carafanau teithiol a pharciau gwersylla yn 25%, gan ddisgyn i 17% ym mis Mai. Fodd bynnag, cafwyd gwelliant mewn lefelau deiliadaeth lleiniau ym mis Mehefin gan gyrraedd cyfradd o 36%, er eu bod yn dal yn is nag ym mis Mehefin 2019.
- Gan yr oedd nifer o hosteli ar gau o hyd ym mis Ebrill, dim ond 3% o'r gwelyau oedd wedi'u cymryd yn ystod mis Ebrill, er mai nifer fach yn unig o hosteli oedd wedi adrodd am ddata yn y mis hwn, felly dylid trin y data hwn gyda gofal. Ail-agorwyd nifer o hosteli ym mis Mai a Mehefin, ac yn sgil hynny cafwyd lefelau deiliadaeth gwelyau o 30% yn y ddau fis, sydd yn dal i fod tipyn yn is na'r lefelau a welwyd yn 2019 (59% a 65% yn y drefn honno).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Newid mewn pwysoli

Yn ystod sawl mis yn 2020 a thri mis cyntaf 2021, nid oedd nifer sylweddol o westai, tai llety/Gwely a Brecwast ar agor oherwydd cyfyngiadau COVID-19 a oedd yn cyfyngu ar weithrediadau llety â gwasanaeth. Golygodd hyn mai dim ond nifer fach o westai a thai llety/gwely a brecwast a ddarparodd data, a effeithiodd ar y pwysoli. Mae pwysoli data deiliadaeth wedi'i gynllunio i addasu ar gyfer gwahanol lefelau ymateb ar draws rhanbarthau a bandiau maint ond pan fydd maint y sampl yn fach gellir gorliwio effaith y pwysiad ar gyfer rhai rhanbarthau neu fandiau maint. Yn ystod misoedd cyfnod clo COVID-19 pan oedd maint samplau mewn rhai rhanbarthau mewn ffigurau sengl, byddai hyn wedi arwain at sefydliadau unigol yn dominyddu'r canlyniadau. Felly, mae'r data yn 2020 a 2021 yn cael ei gyflwyno heb ei bwysoli a dim ond yn adlewyrchu lefelau deiliadaeth gwestai a thai llety/gwely a brecwast a oedd ar agor yn y mis perthnasol. Oherwydd hyn, dylid nodi na ellir dehongli bod data deiliadaeth gwestai a thai llety/gwely a brecwast a ddangosir yn yr adroddiad hwn ar gyfer 2020 a 2021 yn cynrychioli'r farchnad llety â gwasanaeth yn ei chyfanrwydd, ac o ystyried y gwahaniaethau methodolegol, nid oes modd ei gymharu â data 2019 a ddangosir yn adrannau gwestai a thai llety/gwely a brecwast yr adroddiad hwn.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Gwestai

Siart 1: Cyfraddau deiliadaeth ystafelloedd misol a blynyddol ar gyfartaledd, gwestai, 2019 i 2021



* Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020 a 2021, ni ellir cymharu'r data gwestai a ddangosir yn yr adroddiad hwn â blynyddoedd blaenorol

Gyda'r cyfyngiadau yn y sector llety â gwasanaeth yn parhau mewn grym ar draws gweddill y DU, a theithio i mewn ac allan o Gymru wedi'i gyfyngu i deithiau hanfodol yn unig tan 12 Ebrill, gellir priodoli deiliadaeth ystafelloedd yn ystod mis Ebrill i ymwelwyr o fewn Cymru yn bennaf gyda chyfradd deiliadaeth ystafelloedd o 35%. Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio ymhellach ar draws y sector ar 17 Mai, cynyddodd lefelau deiliadaeth ystafelloedd ym mis Mai a Mehefin i 56% a 74% yn y drefn honno yn y gwestai a ymatebodd. Roedd deiliadaeth gwelyau yn dilyn patrwm tebyg yn ystod y cyfnod hwn.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.



* Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020 a 2021, ni ellir cymharu'r data gwestai a ddangosir yn yr adroddiad hwn â blynyddoedd blaenorol

Cafodd y cyfyngiadau ar ymwelwyr o'r tu allan i Gymru eu codi ar 12 Ebrill. Cafodd y cyfyngiadau ar lety â gwasanaethau cyffredin eu codi ar 17 Mai, a chafodd hyn ei adlewyrchu yn lefelau deiliadaeth ystafelloedd yn ail chwarter y flwyddyn. Ar gyfradd o 56%, roedd deiliadaeth ystafelloedd mewn gwesty ddwywaith y gyfradd yn yr un cyfnod yn 2020 pan gafodd sefydliadau llety â gwasanaeth eu cau dros dro, ac eithrio i weithwyr hanfodol, yn sgil pandemig COVID-19.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Siart 3: RevPAR misol a blynyddol, gwestai, 2019 i 2021



* Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020 a 2021, ni ellir cymharu'r data gwestai a ddangosir yn yr adroddiad hwn â blynyddoedd blaenorol

Wrth i'r cyfyngiadau yn y sector llety â gwasanaeth gael eu llacio o 17 Mai 2021, y refeniw misol fesul ystafell sydd ar gael ar gyfer mis Ebrill, Mai a Mehefin oedd £18.26, £34.09 a £52.08 yn y drefn honno, sy'n dipyn yn uwch nag yn 2020 pan roedd sefydliadau llety â gwasanaeth ar agor i weithwyr allweddol yn unig yn ystod y cyfnod clo.

Tai llety a gwely a brecwast

Er yr oedd hawl gan lety hunangynhwysol mewn tai llety/gwely a brecwast i ailagor ar 27 Mawrth i ymwelwyr o fewn Cymru, ni chafodd y cyfyngiadau ar deithio i Gymru eu codi tan 12 Ebrill ac ni chafodd y cyfyngiadau ar lety â gwasanaeth eu codi tan 17 Mai. Cofnododd mis Ebrill lefelau deiliadaeth ystafelloedd o 27% gyda mis Mai yn cynyddu i 50% a mis Mehefin yn parhau gyda'r cynnydd yn y duedd gyda chyfradd deiliadaeth ystafelloedd o 68% yn ystod y mis. Roedd deiliadaeth gwelyau yn dilyn patrwm tebyg yn ystod y cyfnod hwn.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Siart 4: Cyfraddau deiliadaeth ystafelloedd misol a blynyddol ar gyfartaledd, tai llety/gwely a brecwast, 2019 i 2021



* Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020 a 2021, ni ellir cymharu'r data gwestai a ddangosir yn yr adroddiad hwn â blynyddoedd blaenorol

Siart 5: Deiliadaeth ystafelloedd chwarterol,tai llety/gwely a brecwast, 2019 i 2021



* Oherwydd newid yn y fethodoleg yn ystod 2020 a 2021, ni ellir cymharu'r data gwestai a ddangosir yn yr adroddiad hwn â blynyddoedd blaenorol

Wrth i nifer o dai llety/sefydliadau gwely a brecwast ailagor yn ystod y cyfnod hwn, cyrhaeddodd deiliadaeth ystafelloedd yn ail chwarter y flwyddyn 55%. Fodd bynnag, dylid nodi yr oedd maint y sampl yn weddol fach, a dylid trin y canlyniadau gyda rhywfaint o ofal.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Hunanarlwyo

Siart 6: Deiliadaeth unedau misol a blynyddol ar gyfartaledd, hunanarlwyo, 2019 i 2021



Yn y sector hunanarlwyo, dychwelodd lefelau deiliadaeth unedau ym mis Ebrill (54%) a mis Mai (64%) i lefelau tebyg i'r rhai a welwyd yn 2019 (58% a 65% yn y drefn honno). Perfformiodd mis Mehefin dipyn yn well wrth i'r lefelau deiliadaeth unedau gyrraedd eu cyfradd uchaf o 85%, 21 pwynt canran yn uwch nag yn yr un mis yn 2019.

Siart 7: Deiliadaeth unedau chwarterol, hunanarlwyo, 2019 i 2021



Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Wrth i'r cyfyngiadau teithio rhwng gwledydd y DU godi ym mis Ebrill, cofnododd deiliadaeth unedau chwarterol rhwng mis Ebrill a Mehefin lefelau o 68% yn ystod ail chwarter y flwyddyn, sy'n uwch nag ar gyfer yr un cyfnod yn 2019. Gyda chyfyngiadau'r cyfnod clo ar waith ledled y DU yn ystod yr un cyfnod yn 2020, nid yw'r data cymharu ar gael ar gyfer y cyfnod hwn.

Cartrefi gwyliau carafanau statig

Siart 8: Deiliadaeth lleiniau statig misol/tymhorol/blynyddol ar gyfartaledd, 2019 i 2021



Wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi yn ystod ail chwarter y flwyddyn, roedd lefelau deiliadaeth lleiniau yn y sector carafanau statig a chartrefi gwyliau yn uwch ym mis Mai a Mehefin nag yn yr un misoedd yn 2019. Cyrhaeddodd deiliadaeth lleiniau ei chyfradd uchaf ym mis Mehefin o 96% ac yr oedd cystal â'r lefelau deiliadaeth lleiniau sydd i'w gweld fel arfer yn ystod misoedd brig yr haf ym mis Gorffennaf ac Awst.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Parciau gwersylla a charafán deithiol

Siart 9: Deiliadaeth lleiniau teithiol misol/tymhorol/blynyddol ar gyfartaledd, 2019 i 2021



Yn yr un modd â charafanau statig a pharciau gwersylla, roedd deiliadaeth lleiniau ar draws y sector carafanau teithiol a pharciau gwersylla ym mis Ebrill yn gadarn ar 25%, ond disgynnodd i 17% ym mis Mai. Fodd bynnag, cafwyd gwelliant mewn lefelau deiliadaeth lleiniau ym mis Mehefin gan gyrraedd cyfradd o 36%, er eu bod yn dal yn is nag yn yr un mis yn 2019.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Hosteli

Siart 10: Deiliadaeth gwelyau misol a blynyddol ar gyfartaledd, hosteli, 2019 i 2021



Roedd natur y sector wedi'i gwneud hi'n anodd ailagor yn llawn gyda chyfyngiadau COVID-19 ar nifer y gwesteion sy'n aros mewn hosteli. Gyda dim ond 3% o welyau wedi'u cymryd ym mis Ebrill, roedd llawer o hosteli yn dal i fod ynghau yn ystod y mis, er mai nifer fach yn unig o hosteli oedd wedi adrodd am ddata yn y mis hwn, felly dylid trin y data hwn gyda gofal. Ail-agorwyd nifer o hosteli ym mis Mai a Mehefin, ac yn sgil hynny cafwyd lefelau deiliadaeth gwelyau o 30% yn y ddau fis, sydd yn dal i fod tipyn yn is na'r lefelau a welwyd yn 2019 (59% a 65% yn y drefn honno).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Siart 11: Deiliadaeth gwelyau chwarterol, hosteli, 2019 i 2021



The sector had been severely affected by the closure of hostels during the COVID-19 pandemic and this was reflected in the quarterly figures for April to June. The average of 27% during the second quarter of the year was less than half that of the same quarter in 2019 (60%).

Cyd-destun

Ar ddechrau 2021, roedd y cyfnod clo (Lefel Rhybudd 4) yn dal i fod ar waith ac yn parhau drwy gydol mis Ionawr, Chwefror, tan 27 Mawrth pan ddaeth Cymru y genedl gyntaf yn y DU i godi cyfyngiadau teithio o fewn ei ffiniau wrth i'r cyfyngiadau aros yn lleol ddod i ben. Caniatawyd i lety twristiaid hunangynhwysol, fel eiddo hunanarlwyo a rhai gwestai, ailagor.

Ar 26 Ebrill, cafodd cyfyngiadau eu llacio ymhellach yng Nghymru wrth i amwynderau awyr agored, megis pyllau nofio, ailagor, ynghyd ag atyniadau awyr agored a gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu ar gyfer hyd at 30 o bobl a chaniatawyd partïon priodas ar gyfer hyd at 30 o bobl wrth i letygarwch awyr agored ailagor.

O 17 Mai, cafodd y sefydliadau llety oedd yn weddill a llety dan do eu hailagor ynghyd â thafarndai a bwytai a oedd â'r hawl i weini diodydd y tu fewn unwaith eto, a chafodd orielau ac amgueddfeydd eu hailagor hefyd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Prif linellau amser yn 2020 a 2021

- Cyfnod Clo Cenedlaethol y DU o 23 Mawrth 2020.
- 6 Gorffennaf 2020 Cymru yn codi ei chyfyngiadau teithio 'Aros yn Lleol' a chaniatawyd i atyniadau awyr agored ailagor.
- Daeth y cyfnod clo i ben 11 Gorffennaf 2020 ar gyfer busnesau llety heb gyfleusterau a rennir.
- Llwyddodd llety i dwristiaid gyda chyfleusterau a rennir fel safleoedd gwersylla i ailagor o 25 Gorffennaf 2020 ond arhosodd unrhyw gyfleusterau a rennir ar y safle ar gau, megis pyllau nofio, cyfleusterau hamdden, cawodydd a rennir a blociau toiledau.
- Cynllun Estyn Llaw drwy Fwyta Allan (3 i 31 Awst 2020),
- 23 Hydref i 9 Tachwedd 2020 Cyfnod atal byr 17 diwrnod yng Nghymru.
- 19 Rhagfyr 2020 Rheolau swigen Nadolig yn newid i ganiatáu i ddau deulu ddod at ei gilydd ar ddydd Nadolig yn unig.
- 19 Rhagfyr 2020 Cyfyngiadau newydd yn cael eu cyflwyno o hanner nos (lefel rhybudd 4): manwerthu nad yw'n hanfodol, gwasanaethau cyswllt agos, campfeydd a chanolfannau hamdden, lletygarwch a llety i gau ar ddiwedd masnachu. Cyfyngiad aros gartref i ddod i rym am hanner nos.
- 26 Rhagfyr 2020 Cymru yn mynd i gyfnod clo (lefel rhybudd 4) ar ôl i'r rheolau gael eu llacio'n fyr dros Ddydd Nadolig.
- Mae cyfyngiadau clo (rhybudd lefel 4) yn parhau ym mis Ionawr a mis Chwefror 2021.
- 27 Mawrth 2021 Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i godi cyfyngiadau teithio o fewn ei ffiniau wrth i'r cyfyngiadau aros yn lleol ddod i ben. Caniatawyd i lety twristiaid hunangynhwysol, fel bythynnod a rhai gwestai, ailagor.
- 12 Ebrill caniatawyd i bobl o Gymru deithio i rannau eraill o'r DU, a chaniatawyd i ymwelwyr y DU deithio i Gymru.
- 26 Ebrill 2021 pyllau nofio awyr agored, atyniadau awyr agored, gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu ar gyfer hyd at 30 o bobl a phartïon priodas ar gyfer hyd at 30 o bobl yn cael eu caniatáu wrth i letygarwch awyr agored ailagor.
- 17 Mai llety i ymwelwyr â gwasanaethau cyffredin, a llety dan do yn ailagor wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio ymhellach, gyda thafarndai a bwytai yn cael gweini diodydd ac ail-agorwyd orielau ac amgueddfeydd hefyd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Maint sampl

Yr holl feintiau samplau misol yn ôl sector a ddangosir isod yw'r busnesau hynny a oedd ar agor ac a ddarparodd ddata am y mis hwnnw.

Tabl 1: Maint sampl misol yn ôl sector, Ionawr i Fehefin 2021

	Gwestai: ar agor	Gwestai: ar gau	Tŷ llety a, Gwely a brecwast: ar agor	Tŷ llety a, Gwely a brecwast: ar gau	Hunan-ddarpar: ar agor	Hunan-ddarpar: ar gau
Ionawr	50	131	3	25	69	533
Chwefror	59	124	3	25	34	568
Mawrth	68	115	4	24	230	326
Ebrill	129	43	4	11	275	28
Mai	155	18	14	3	306	6
Mehefin	157	18	15	3	306	4

Tabl 1: Maint sampl misol yn ôl sector, Ionawr i Fehein 2021 (parhau)

	Carafanau statig: ar agor	Carafanau statig: ar gau	Carafanau teithiol: ar agor	Carafanau teithiol: ar gau	Hosteli: ar agor	Hosteli: ar gau
Ionawr	0	19	0	25	0	22

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

	Carafanau statig: ar agor	Carafanau statig: ar gau	Carafanau teithiol: ar agor	Carafanau teithiol: ar gau	Hosteli: ar agor	Hosteli: ar gau
Chwefror	0	19	0	25	0	21
Mawrth	0	19	0	25	2	20
Ebrill	15	2	8	7	5	15
Mai	16	1	12	1	18	1
Mehefin	17	0	13	0	19	0

Manylion cyswllt

Jen Velu
Ffôn: 0300 025 0459
E-bost: **ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru**

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 64/2021
ISBN digidol 978-1-80195-914-8

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Arolygon deiliadaeth llety twristiaeth Cymru: Ebrill i Fehefin 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/arolygon-deiliadaeth-llety-twristiaeth-cymru-ebrill-i-fehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.